LANEq114

# Gosod a datgysylltu ceffylau harnais gan ddefnyddio cerbydau unigol sy’n cael eu tynnu gan geffylau, o dan oruchwyliaeth

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gallu gosod a datgysylltu ceffylau harnais gan ddefnyddio cerbydau unigol sy'n cael eu tynnu gan geffylau, o dan oruchwyliaeth.

Byddai'r gwaith a ddisgrifir yn y safon hon yn cael ei wneud o dan gyfarwyddyd goruchwylydd. Gallai hyn fod yn oruchwyliaeth uniongyrchol neu gallai fod trwy roi cyfarwyddiadau a monitro gwaith.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau
2. paratoi'r cerbyd unigol sy'n cael ei dynnu gan geffyl ar gyfer gosod, o dan oruchwyliaeth
3. mynd at y ceffyl yn unol â'r cyfarwyddiadau ac mewn ffordd sy'n lleihau straen ar y ceffyl a pherygl i chi ac i eraill
4. cadw rheolaeth dros y ceffyl trwy gydol y broses
5. arwain y ceffyl at y cerbyd, o dan oruchwyliaeth
6. cysylltu harnais y ceffyl i'r cerbyd, o dan oruchwyliaeth
7. cynorthwyo i gydbwyso cerbydau dwy olwyn
8. mynd â'r ceffyl allan trwy ddatgysylltu'r harnais a gwthio'r cerbyd yn ôl o'r ceffyl ar ôl ei ddefnyddio
9. bod yn ymwybodol o'ch iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddefnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. eich rôl a'ch cyfrifoldebau yn ymwneud â gosod/datgysylltu ceffylau harnais gan ddefnyddio cerbydau unigol sy'n cael eu tynnu gan geffylau
3. sut o leoli'r cerbyd sy'n cael ei dynnu gan geffyl ar gyfer gosod
4. sut i fynd at geffylau mewn ffordd briodol er mwyn lleihau straen arnynt a pherygl i chi eich hun ac i eraill
5. sut i gysylltu'r harnais i'r cerbyd wrth osod a datgysylltu'r harnais wrth ei dynnu allan
6. sut i ddefnyddio'r offer priodol ar gyfer cerbyd unigol sy'n cael ei dynnu gan geffylau
7. sut i gydbwyso cerbyd dwy olwyn sy'n cael ei dynnu gan geffyl
8. pwysigrwydd peidio byth â thynnu'r ffrwyn tra bod y ceffyl yn dal rhwng y siafftiau
9. sut i gadw rheolaeth dros y ceffyl tra'n gweithio
10. eich cyfrifoldebau yn ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â  gwybodaeth a dealltwriaeth

Swyddogaeth yr offer canlynol:

- band bol
- strapiau tindres, 'D' tindres, a gweddau tindres
- tyniadau ac atalwyr tyniadau
- siafftiau
- cambren

LANEq114

Gosod a datgysylltu ceffylau harnais gan ddefnyddio cerbydau unigol sy'n cael eu tynnu gan geffylau, o dan oruchwyliaeth

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq114 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffyl; ceffylau; harnais; cerbyd; band bol; strapiau tindres; siafftiau; cambren |